CYFRES A10

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 6: 8-15 7: 54-60

Mae'r stori hon yn sôn am:
Cariad mawr Steffan tuag at yr Arglwydd Iesu.

Stori 1 Steffan yn marw dros yr Arglwydd Iesu.

Dyn da oedd Steffan ac roedd yn gwasanaethu'r Arglwydd Iesu drwy helpu pobl dlawd.

Byddai Steffan yn aml yn pregethu am Iesu. Doedd rhai pobl ddim yn credu ei eiriau. Dechreuon nhw ddweud celwyddau am Steffan.

Dyma nhw'n mynd mor flin nes iddyn nhw ei lusgo y tu allan i'r ddinas a dechrau taflu cerrig mawr ato.

Doedd dim ofn ar Steffan. Gadawodd Duw iddo edrych i mewn i'r Nefoedd ac yno gwelodd yr Arglwydd Iesu.

Pwy welodd Steffan yn y Nefoedd? Yr A_ _ _ _ _ _ _ I _ _ _ _ .

Gofynnodd Steffan i'r Arglwydd Iesu faddau i'w elynion. Yna buodd farw mewn heddwch.

Roedd Steffan yn caru'r Arglwydd Iesu yn fawr iawn achos roedd Ef wedi marw ar y groes drosto. Nawr, roedd Steffan yn barod i farw dros Iesu Grist.

Lliwiwch y geiriau hyn a'r llun.

"Yr ydym ni'n caru am Iddo Ef yn gyntaf ein caru ni." 1 Ioan 4: 19

Enw

DARLLENWCH
Actau 8: 26-40

Mae'r stori hon yn sôn am:
Dyn o Affrica yn credu yn yr Arglwydd Iesu.

Stori 2 Philip yn rhannu'r newyddion da.



Lle sych a phoeth iawn yw anialwch – nid y math o le y bydd pobl yn byw ynddo!

Un diwrnod, dywedodd angel wrth weinidog o'r enw Philip am fynd ar daith i'r anialwch. Ufuddhaodd Philip ar unwaith. Pan gyrhaeddodd yr anialwch, daeth ar draws dyn pwysig oedd ar ei ffordd adref i Affrica.

Clywodd Philip y dyn yn darllen o'r Beibl! Doedd e ddim yn deall beth roedd e'n ei ddarllen, felly aeth Philip i mewn ato i'r cerbyd ac esboniodd mai sôn am yr Arglwydd Iesu roedd y geiriau.

Sylweddolodd y dyn yn fuan bod angen iddo fe hefyd ymddiried yn yr Arglwydd Iesu. Heb oedi am eiliad, credodd a maddeuwyd ei bechodau. Yna, aeth adref yn gorfoleddu.

Lliwiwch y geiriau hyn a'r llun.

Dywedodd Philip y

newyddion

da am Iesu wrth y dyn.

Beth ddigwyddodd i'r dyn ar ôl i Philip ddweud y newyddion da wrtho?

Credodd yn yr Arglwydd I __ __ __ a maddeuwyd ei b __ ___ __ __ __ __.

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 9: 1-9

Mae'r stori hon yn sôn am:
Gallu Duw i newid bywydau.

Stori 3 Saul a golau llachar!

Roedd Saul yn casáu Iesu Grist! Doedd e ddim yn credu mai Iesu oedd Mab Duw. Dechreuodd wneud niwed i'r bobl oedd yn caru Iesu. Un diwrnod, roedd Saul yn mynd i ddinas o'r enw Damascus i chwilio am Gristnogion a'u taflu i garchar.

Wrth i Saul a'i ffrindiau gerdded ar hyd y ffordd, ymddangosodd fflach o olau llachar iawn yn yr awyr. Syrthiodd Saul i'r llawr!

Yna, digwyddodd rhywbeth rhyfeddol. Siaradodd yr Arglwydd Iesu â Saul o'r Nefoedd! Roedd Saul yn gwybod fod Iesu Grist yn Fab Duw a'i fod e, Saul, wedi gwneud llawer o bethau drwg yn erbyn Iesu.

Roedd gwir angen newid ei fywyd!

Dyma'r diwrnod pwysicaf ym mywyd Saul oherwydd daeth i gredu yn yr Arglwydd Iesu ac ufuddhau Iddo.

Rhowch ✓ neu ✗ wrth ymyl y brawddegau hyn.

Roedd Saul yn casáu Iesu Grist. ____
Roedd Saul yn helpu pobl oedd yn caru'r Arglwydd Iesu. ____
Siaradodd Iesu â Saul. ____

Dywedodd yr Arglwydd Iesu wrth Saul am fynd i mewn i ddinas Damascus. Cafodd help gan ei ffrindiau oherwydd roedd e wedi mynd yn ddall. Rydym ni i gyd yn bechaduriaid ac yn gwneud pethau drwg. Dim ond yr Arglwydd Iesu all gymryd ein pechod oddi arnom. Dim ond Ef sy'n gallu rhoi i ni'r nerth i fyw bywyd newydd. Bydd Ef yn ein helpu i wneud yr hyn sy'n iawn bob dydd, os byddwn ni, fel Saul, yn credu Ynddo ac yn ufudd Iddo.

Enw

DARLLENWCH
Actau 9: 10-23

Mae'r stori hon yn sôn am:
Sut y defnyddiodd Duw Saul i ddweud wrth eraill.

Stori 4 Saul yn dod yn ddyn newydd.

Roedd Saul wedi bod yn Namascus am dri diwrnod.

Anfonodd yr Arglwydd ddyn o'r enw Ananias i weld Saul. Roedd ar Ananias ofn mynd i weld Saul.

Gwyddai mor greulon roedd Saul wedi bod wrth y bobl oedd yn caru Iesu Grist.

Ond roedd Saul yn ddyn gwahanol iawn erbyn hyn! Roedd Saul hefyd yn caru'r Arglwydd Iesu.
Gosododd Ananias ei ddwylo arno a chafodd Saul ei olwg yn ôl.
Esboniodd Ananias bod gan Dduw waith arbennig i Saul – pregethu am yr Arglwydd Iesu wrth bobl oedd heb glywed amdano Ef o'r blaen.

Pwy ddaeth i weld Saul?

A _ _ _ _ _ _.

Cyn hir, dyma Saul yn cwrdd â phobl eraill oedd yn ddilynwyr Iesu Grist. Roedden nhw hefyd yn rhyfeddu gymaint roedd Saul wedi newid. Dechreuodd Saul bregethu am yr Arglwydd Iesu.

Lliwiwch y geiriau islaw. Maen nhw'n dweud wrthon ni beth oedd neges Saul.

"Iesu yw Mab Duw."

10

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120